

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Polisi Cynllunio Anffurfiol
Dyddiad:	15 Ionawr 2026
Pwnc:	Papur Pwnc Strategaeth Aneddeleoedd Drafft
Aelod Portffolio:	Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd)
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Christian Branch Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Awdur yr Adroddiad:	John I. Williams (Rheolwr Polisi Cynllunio)
Ffôn:	
E-bost:	johnwilliams2@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Mae'n berthnasol i bob Aelod Lleol

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Papur Pwnc Strategaeth Anheddeleoedd drafft, sydd yn nodi'r hierarchaeth aneddeleoedd arfaethedig fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLL) newydd, ar gyfer trafodaeth gychwynnol. Mae'r papur yn:

- Adolygu'r canllawiau polisi cynllunio mewn perthynas â'r angen i ymgymeryd ag asesiad anheddeleoedd er mwyn hysbysu'r CDLI sydd yn cael ei ddatblygu;
- Adolygu'r fethodoleg â ddefnyddiwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI) ac awdurdodau cyfagos;
- Amlinellu'r fethodoleg asesu sydd wedi ei ddefnyddio i adnabod rôl anheddeleoedd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn;
- Adnabod yr haenau mae'r holl anheddeleoedd wedi eu categorïddio ynddynt.

2.0 Penderfyniad sydd ei angen

2.1 Bod y Pwyllgor yn rhoi mewnbwn ac yn cymeradwyo'r Papur Pwnc Strategaeth Anheddeleoedd drafft, fel sail ar gyfer yr hierarchiaeth anheddeleoedd i'w ddefnyddio yng NghDLI Ynys Môn sy'n datblygu.

3.0 Cyd-destun Polisi Cynllunio

- 3.1 Mae'r papur yn nodi'r gofyniad polisi i sefydlu hierarchiaeth anheddleoedd fel rhan o'r broses o ddatblygu CDLI ac fel sydd wedi eu cyfeirio ato yn y canllawiau a dogfennau polisi:
- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
 - Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 11 (2021)
 - Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3 (Mawrth 2020)
- 3.2 Mae Polisi Cynllunio'n pwysleisio fod creu'r hierarchaeth aneddleoedd yn dasg hanfodol wrth greu unrhyw gynllun defnydd tir. Mae'n diffinio rôl gwahanol aneddleoedd mewn ardal ac mae'n dylanwadu ar ddosbarthu gofynion tai a chyflogaeth y cynllun.
- 3.3 Pwrpas y Papur Pwnc yw asesu a nodi anheddleoedd sydd â'r potensial i dderbyn twf yn y dyfodol yn nhermau eu lleoliad, eu rôl a'u swyddogaeth. Mae hyn yn golygu asesu rôl a swyddogaeth bresennol anheddleoedd, yn ogystal â deall y berthynas rhwng anheddleoedd a'u rolau posib yn y dyfodol.
- 3.4 Mae'r papur pwnc yn ceisio asesu rôl anheddleoedd o fewn Ardal y Cynllun ac wedi hynny grwpio anheddleoedd o dan wahanol haenau / fathau ar sail eu rôl a'u swyddogaeth.

4.0 Methodoleg y Strategaeth Anheddleoedd

- 4.1 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y ddau Gyngor ym mis Gorffennaf 2017. Cynhaliwyd yr asesiad sy'n sail i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ym mis Chwefror 2015 ac roedd y canlyniadau'n sail i'r hierarchaeth anheddleoedd a fabwysiadwyd gan y Cynllun.
- 4.2 Roedd y dull gweithredu a fabwysiadwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn yn asesiad manwl i nodi rôl bresennol canolfannau yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Nodwyd cyfleusterau a gwasanaethau gwahanol ym mhob anheddle a rhoddwyd sgôr ar gyfer y rhain. Yna, defnyddiwyd y sgôr a roddwyd i bob anheddle i gategoreiddio'r anheddleoedd hyn yn wahanol fathau o anheddle yn yr ardal. Rhoddwyd anheddleoedd unigol wedyn yn y categori perthnasol gyda disgrifiad o'r math o ddatblygiad a ragwelir o fewn categorïau o'r fath.
- 4.3 Ar ôl ystyried y dull a ddefnyddiwyd wrth lunio CDLLC Ynys Môn a Gwynedd, y dull a fabwysiadwyd gan Awdurodau Cynllunio Lleol eraill a'r canllawiau polisi cynllunio a ddiweddarwyd, penderfynwyd seilio'r asesiad ar y categorïau bras canlynol:
- **Maint y Boblogaeth**
 - **Trafnidiaeth a Hygyrchedd** - lefel trafndiaeth gynaliadwy a hygyrchedd rhwydweithiau trafndiaeth yn yr anheddleoedd a'r cyffiniau.
 - **Cyfleoedd Cyflogaeth** - lefel y cyfleoedd cyflogaeth yn yr anheddleoedd a'r cyffiniau.

- **Gwasanaethau a Chyfleusterau** - argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn yr anheddleoeedd a'r cyffiniau.

- 4.4 Mae cyfanswm o 87 anheddiad wedi'u cynnwys yn yr arfarniad. Ailaseswyd yr anheddleoeedd ar Ynys Môn sy'n cael eu hystyried yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLLC) Ynys Môn a Gwynedd er mwyn sefydlu hierarchaeth anheddleoeedd ar gyfer y CDLL.
- 4.5 Er mwyn sicrhau fod gwahanol rolau anheddleoeedd yn derbyn ystyriaeth lawn, penderfynwyd cynnwys ystod eang o wasanaethau yn yr asesiad. Roeddent yn perthyn i chwe chategori eang, sef Addysg, Iechyd, Hamdden, Manwerthu, Trafnidiaeth ac Economi ac mae'n cynnwys y gwasanaethau sydd yn rhan o fynediad at wasanaethau ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019).
- 4.6 Roedd y dangosyddion olaf a ddefnyddiwyd at ddibenion yr asesiad fel a ganlyn felly:

Meini Prawf Asesu	Cyfleuster Gwasanaeth a Nodwyd
Maint y Boblogaeth	• Nifer o Breswylwyr
Trafnidiaeth a Hygyrchedd	• Dull Teithio • Gwasanaeth Bws • Gwasanaeth Trên • Rhwydwaith Priffyrdd
Cyfleoedd Cyflogaeth	• Safle Cyflogaeth • Siopau a Busnesau Bach
Gwasanaethau a Chyfleusterau <i>(Gwasanaethau a nodwyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 mewn print trwm)</i>	• Ysgolion Cynradd • Ysgolion Uwchradd • Meddygfa • Deintydd • Llyfrgell • Cyfleuster Chwaraeon/Canolfan Hamdden • Swyddfa Bost • Fferyllfa • Cysylltiad Band Eang • Cysylltiad Ffôn Symudol • Siop Fwyd Fawr • Siop Fwyd Gyfleus • Ysbyty • Canolfan Gymuned/Neuadd Bentrif • Tafarn • Caffi/Bwyty/Siop Tecawê • Banc/Cymdeithas Adeiladu

	• Gorsaf Betrol • Coleg • Peiriant Codi Arian • Man Addoli • Optegydd • Sinema/Theatr • Siop Fanwerthu Arall • Meithrinfa/Cylch Chwarae • Gorsaf Heddlu • Gorsaf Dân
--	--

4.7 Cwblhawyd asesiad bwrdd gwaith o wasanaethau a chyfleusterau presennol ar gyfer yr holl anheddleoedd yn gynnar yn 2025. Defnyddiwyd astudiaeth bwrdd gwaith, gan ddefnyddio data oedd ar gael ar ffurf gwybodaeth leol, gwybodaeth ar y rhyngrwyd a system fapio'r Cyngor, er mwyn sefydlu llinell sylfaen o gyfleusterau a gwasanaethau y gwyddys eu bod yn bresennol yn yr anheddleoedd, megis lleoliad neuaddau pentref, meddygfeydd, swyddfeydd post, arosfannau bysiau a chyfleoedd cyflogaeth.

4.8 Yna, aseswyd pob anheddiad yn erbyn system sgorio a'u rhestru mewn trefn yn unol â chyfanswm y sgôr. Mae rhestru anheddleoedd mewn trefn fel hyn yn darparu asesiad cynaliadwyedd meintiol cychwynnol sydd wedi ei gyfyngu i'r ffactorau mesuradwy a nodwyd. Mae'r meini prawf hyn wedi graddio'r anheddleoedd a siapio'r hierarchaeth fel bod datblygiadau'n cael eu cyfeirio tuag at anheddleoedd cynaliadwy. Mae anheddleoedd o'r fath yn sicrhau bod gan bob person lleol fynediad parod i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau hynny sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu bywydau bob dydd, ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles y gymuned. Mae llawer o ffactorau'n dylanwadu ar iechyd y gymuned, gan gynnwys ffyrdd o fyw, yr amgylchedd byw, y cyfleoedd i ymarfer corff a mynediad at gyfleusterau iechyd, addysg, cyfleusterau cymunedol, gofal plant, darpariaeth i bobl ifanc, cyfleusterau chwaraeon, mannau gwyrdd naturiol a mannau agored. Mae ymdeimlad ehangach o les yn cael ei ddylanwadu ga amrywiaeth o ffactorau megis cyfleoedd ar gyfer gwaith a hamdden, perthnasoedd personol, teimladau o ddiogelwch a chymuned.

5.0 Haenau Anheddleoedd

5.1 Cam nesaf yr asesiad hierarchaeth anheddleoedd oedd nodi categorïau bras o anheddleoedd sy'n bodoli yn ardal y Cynllun. Nodwyd pum categori bras o anheddleoedd yn ardal y Cynllun. Mae'r haenau a nodir yn yr hierarchaeth anheddleoedd fel a ganlyn:

- **Canolfan Gwasanaeth Is-ranbarthol** - Canolfannau sydd ag ystod gynhwysfawr o gyfleusterau cyflogaeth, adwerthu, cymunedol a gwasanaethau, sy'n gwasanaethu eu poblogaeth eu hunain yn ogystal â dalgylch eang

- **Canolfan Wasanaeth Drefol** - Canolfannau sy'n darparu anghenion gwasanaeth hanfodol eu poblogaeth eu hunain a'r dalgylch agos. Mae ganddynt nifer gymharol uchel ac ystod eang o gyfleusterau cyflogaeth, adwerthu, cymunedol a gwasanaethau sy'n gwasanaethu eu poblogaeth eu hunain yn ogystal â'r ardal dalgylch ehangach. Mae ganddynt gysylltiadau trafnidiaeth da.
- **Canolfannau Gwasanaeth Lleol** - Canolfannau sy'n darparu anghenion gwasanaeth hanfodol eu poblogaeth eu hunain a'r dalgylch agos. Mae ganddynt rai cyfleoedd cyflogaeth, adwerthu, gwasanaethau a chymunedol, a hygyrchedd da ar drafnidiaeth gyhoeddus i ganolfannau lefel uwch.
- **Pentrefi** – Anheddleoedd sydd gydag o leiaf un o'r Gwasanaethau Allweddol a nodwyd a nifer cyfyngedig o wasanaethau eraill sy'n gwasanaethu'r anheddle a Chlystyrau lefel is yn y cyffiniau;
- **Clystyrau** - Anheddleoedd bach yw rhain yn bennaf, sy'n cynnwys clwstr o dai tynn, digonol a hawdd eu diffinio. Ceir anheddleoedd achlysurol o faint cymharol fwy yn eu plith. Fodd bynnag, nid oes gan yr un o'r clystyrau gyflenwad digonol o gyfleusterau neu wasanaethau ac felly maent yn dibynnu ar ganolfannau lefel uwch.
- **Anheddleoedd Gwledig Anniffiniedig** – nid oes gan yr anheddleoedd hyn ffin ddatblygu ac yn hytrach, mae datblygaid yn cael ei dywys gan bolisiâu cenedlaethol a lleol sydd wedi eu dylunio i amddiffyn cefn gwlad.

5.2 Mae'r pwynt torri rhwng pob haen wedi'i bennu gan ddefnyddio barn cynllunio proffesiynol yn seiliedig ar gynaliadwyedd cyffredinol anheddleoedd. Mae'r pwyntiau torri i ffwrdd hefyd yn digwydd ar doriadau naturiol yn y data.

5.3 Ar sail y sgôr ar gyfer pob anheddiad a aseswyd, cafodd yr holl anheddleoedd wedyn eu grwpio mewn gwahanol haenau yn seiliedig ar eu rôl a'u swyddogaeth. Mae'r mwyafrif o anheddleoedd wedi aros o fewn eu haenau cymharol fel y'u categoriwyd yn y CDLI ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd. Pan fo anheddleoedd wedi'u huwchraddio i haen uwch, mae'n golygu bod y gwasanaethau a'r cyfleusterau (fel y nodwyd yn y fethodoleg asesu) sydd ar gael yn yr anheddleoedd hynny wedi cynyddu mewn nifer/argaeledd ers y sefyllfa yn y CDLI ar y Cyd. I'r gwrthwyneb, lle mae anheddleoedd wedi'u hisraddio i haen is, mae argaeledd/nifer y cyfleusterau/gwasanaethau hynny wedi lleihau. Mae'r anheddleoedd canlynol wedi eu hailddosbarthu i adlewyrchu canlyniadau'r fethodoleg sgorio a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad hwn:

- Caergybi wedi ei ail-gategoreiddio fel Canolfan Isranbarthol;
- Porthaethwy wedi ei uwchraddio o Ganolfan Gwasanaeth Lleol i Ganolfan Gwasanaeth Trefol;
- Brynsiencyn a Phenysarn wedi eu huwchraddio o Bentrefi Lleol i Bentrefi Gwasanaeth;
- Niwbwrch wedi ei israddio o Bentref Gwasanaeth i Bentref Lleol;
- Pentre Canol, Pentre Berw a Rhostrehwfa wedi eu huwchraddio o Glwstr i Bentref Lleol;
- Llanrhuddlad, Pencaernisiog, Carreglefn, Llanfaethlu, Llanddona a Llanbedrgoch wedi eu hisraddio o Bentrefi i Glystyrrau.

- 5.4 Bydd y Papur Testun Strategaeth Anheddleoedd yn hysbysu'r Strategaeth Tyfiant o'r Cynllun newydd mewn amser.

6.0 Cwestiynau i'w Hystyried

Cwestiwn 1 - A ddylid ystyried yr holl anheddleoedd presennol wrth ddatblygu'r hierarchaeth newydd? A ddylid ystyried cynnwys unrhyw anheddleoedd eraill?

Cwestiwn 2 - A oes unrhyw gyfleusterau / gwasanaethau eraill y dylid eu hystyried yn yr asesiad?

Cwestiwn 3 - Ydych chi'n cytuno â'r broses hon ar gyfer asesu anheddleoedd?

7.0 Argymhelliad

- 7.1 Argymhellir bod Aelodau'n ystyried a chymeradwyo methodoleg yr Hierarchaeth Anheddleoedd drafft a gynhwysir yn Atodiad 1.

Cynlun Datblygu Lleol Ynys Môn

Papur Testun 4: Strategaeth Anheddleoedd



Cefndir

Mae hwn yn un o amrywiaeth o bapurau pwnc sy'n barod i gynnig gwybodaeth fanylach ac egluro dull gweithredu'r Cynllun ar gyfer gwahanol bynciau a materion sy'n effeithio ar Ardal Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Ynys Môn. Bydd y papur hwn yn edrych yn benodol ar ddatblygu'r strategaeth anheddu. Bydd yn egluro'r cefndir a fydd yn helpu i nodi'r materion, yr amcanion a'r opsiynau ar gyfer y CDLI.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn siapiaio twf cymunedau yn Ardal y Cynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol a bydd yn nodi'r polisiâu a'r dyraniadau tir y bydd ceisiadau cynllunio yn cael eu hasesu yn eu herbyn.

Pwrpas yr asesiad hwn yw nodi anheddleoedd sydd â'r potensial i ddarparu ar gyfer twf yn y dyfodol o ran eu lleoliad, eu rôl a'u swyddogaeth. Mae hyn yn cynnwys asesu rôl a swyddogaeth bresennol anheddleoedd, yn ogystal â dealltwriaeth o'r berthynas rhwng anheddleoedd a'u rolau posibl yn y dyfodol

Bydd y papur pwnc yn ceisio asesu rôl anheddleoedd yn Ardal y Cynllun ac wedyn grwpio anheddleoedd i wahanol haenau / mathau yn seiliedig ar eu rôl a'u swyddogaeth.

Dylid darllen y papur ar y cyd â Phapurau Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol sy'n darparu'r ddolen ar gyfer ffigurau cyflenwad tai a ffigurau economaidd ledled y sir.

CYNNWYS

	Tud
1.0 Cyflwyniad	1
2.0 Polisi Cynllunio Cenedlaethol	2
3.0 Methodoleg Asesu Hierarchaeth Anheddleoedd mewn Awdurdodau Eraill	7
4.0 Methodoleg Arfarnu Anheddleoedd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Ynys Môn	12
5.0 Haenau Anheddleoedd	26

1.0 Cyflwyniad


- 1.1 Un o ofynion allweddol Cynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn yw sefydlu Hierarchaeth Anedddleoedd Cynaliadwy. Pwrpas Hierarchaeth Anheddleoedd Cynaliadwy yw sicrhau bod y datblygiad cywir yn digwydd yn y lleoliadau cywir gyda'r mynediad gorau at amrywiaeth eang o wasanaethau, cyfleusterau a chyffleoedd cyflogaeth, gan leihau'r defnydd o geir a'r angen i deithio.
- 1.2 Mae'r papur hwn yn defnyddio egwyddorion cynaliadwyedd i asesu hierarchaeth anheddleoedd i sefydlu'r lleoliadau mwyaf addas ar gyfer datblygiadau newydd. Mae'n nodi'r amcanion cenedlaethol i'w hystyried wrth sefydlu hierarchaeth anheddleoedd ac yn cymharu'r rhain â nodweddion lleol allweddol yr ardal.
- 1.3 Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn a fabwysiadwyd yn gosod hierarchaeth anheddleoedd ar sail dadansoddiad o nodweddion pob anheddle. Roedd yr hierarchaeth a'r polisiâu yn y Cynllun yn rheoli cyfradd a lleoliad datblygiadau newydd.
- 1.4 Mae angen adolygu hierarchaeth anheddleoedd y CDLI newydd am y rhesymau canlynol:
 - Yr angen i sicrhau bod y CDLI yn ystyried polisi cynllunio lleol a chenedlaethol gan gynnwys Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
 - Yr angen i sicrhau bod y CDLI yn gyson, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, â CDLIau a gynhyrchir gan awdurdodau cyfagos;
 - Mae rhai anheddleoedd wedi profi colledion/enillion mewn cyfleusterau cymunedol, a allai effeithio ar eu cynaliadwyedd cyffredinol a'u gallu i ddarparu ar gyfer twf yn y dyfodol.

2.0 Polisi Cynllunio Cenedlaethol

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

- 2.1 Mae Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Cymru'r Dyfodol) yn gynllun datblygu, sy'n amlinellu sut bydd Cymru'n newid yn ystod y cyfnod 2020-2040. Mae hyn yn berthnasol i ddatblygu trefol a gwledig. Mae un weledigaeth yn y Cynllun yn datgan *"Mewn ardaloedd gwledig, bydd cyfleoedd gwaith a gwasanaethau cymunedol yn cael eu cefnogi i helpu i ddenu a chadw pobl. Ceir cydbwysedd rhwng datblygu a gwarchod cymeriad y Gymru wledig, gan sicrhau bod dyfodol disglair i'n trefi bach a'n pentrefi fel lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddynt. Bydd yr economi wledig yn ffynnu a bydd cymunedau wedi'u cysylltu'n dda yn ddigidol ac yn ffisegol."*
- 2.2 Mae'r Cynllun yn datgan bod *"strategaeth ofodol a hierarchaeth anheddleoedd cynllun datblygu yn arfau pwerus i ddylanwadu ar leoliad twf a faint o dir sy'n cael ei ddatblygu. Maent yn diffinio a fydd datblygiad yn cael ei gynhoi mewn un lle neu'n wasgaredig ar draws ardal eang. Mae'r agweddau hyn ar gynllun yn pennu a yw maint a chymeriad lle yn aros yn gyson neu'n cael eu newid yn raddol, a yw pobl yn byw mewn mannau sy'n agos neu'n bell i ffwrdd o weithleoedd, ac a oes angen car arnynt i gael mynediad at wasanaethau o ddydd i ddydd a chyfleusterau cymunedol. Mae'r rhain yn benderfyniadau pwysig, sy'n effeithio ar ansawdd bywyd pobl ac yn dylanwadu ar ba mor wydn yw lleoedd."*
- 2.3 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod Ynys Môn yn Rhanbarth y Gogledd sydd hefyd yn cynnwys Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Yn Rhanbarth y Gogledd, mae Cymru'r Dyfodol yn nodi'r Ardaloedd Twf Rhanbarthol canlynol:
- Caergybi
 - Caernarfon a Bangor
 - Llandudno a Bae Colwyn
 - Y Rhyl a Phrestatyn
- 2.4 Dim ond Caergybi sydd yn Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn. Mae Polisi 21 yn cefnogi twf ac adfywio cynaliadwy mewn trefi sy'n bwysig yn rhanbarthol ar hyd Arfordir y gogledd. Bydd Caergybi, Caernarfon, Bangor, Llandudno, Bae Colwyn, y Rhyl a Phrestatyn yn ganolbwynt ar gyfer twf wedi'i reoli ac mae ganddynt rôl is-ranbarthol bwysig sy'n ategu Ardal Dwf Genedlaethol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy. Mae'n cynghori y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gydnabod rolau'r lleoedd hyn fel canolbwynt ar gyfer tai, cyflogaeth, twristiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau allweddol yn eu hardaloedd ehangach a chefnogi eu swyddogaeth barhaus fel canolbwynt ar gyfer twf is-ranbarthol.

Diagram 1: Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Rhanbarth y Gogledd (Cymru'r Dyfodol)



Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 11 (2021)

- 2.5 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r polisiau cynllunio defnydd tir a'r nodau datblygu cynaliadwy cyffredinol ar gyfer Cymru. Nid yw Polisi Cynllunio Cymru yn darparu canllawiau penodol ar sefydlu hierarchaeth anheddleoedd ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol.
- 2.6 Er mwyn creu lleoedd cynaliadwy, mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan y dylai cynlluniau datblygu:
- nodi ardaloedd a safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd...yn seiliedig nid yn unig ar ystyried anghenion ardaloedd trefol a gwledig presennol ond hefyd ar y berthynas yn y dyfodol rhwng anheddleoedd trefol a'u cyffiniau gwledig, yn enwedig yng ngoleuni sicrhau cymunedau gwledig a threfol cryf, cynnal lleoedd sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau newid cymdeithasol ac economaidd ac sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd (para 3.41);
 - cynnwys strategaeth ofodol ar gyfer oes y cynllun sy'n sefydlu patrwm datblygu sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol (para 3.42);

- blaenoriaethu'r defnydd o dir addas a chynaliadwy a ddatblygwyd o'r blaen a/neu safleoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol ar gyfer pob math o ddatblygiad (para 3.43);
- hyrwyddo canolfannau adwerthu a masnachol trefol a gwledig hyfyw fel y lleoliadau mwyaf cynaliadwy i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu a chynnal busnes (para 4.3.3);
- sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu lleoli a'u dylunio mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i deithio, yn lleihau dibyniaeth ar geir preifat ac yn galluogi mynediad cynaliadwy at gyflogaeth, gwasanaethau lleol a chyfleusterau cymunedol (para 4.0.3);
- gwarchod a, phan fo'n bosibl, gwella cefn gwlad er mwyn ei werth ecolegol, daearegol, ffisiograffigol, hanesyddol, archeolegol, diwylliannol ac amaethyddol ac am ei dirwedd a'i adnoddau naturiol...wedi'i gydbwysu yn erbyn anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr (para 3.38); a;
- meithrin hyblygrwydd a chydnerthedd lleoedd gwledig yn wyneb yr her sylweddol o gynnal bywiogrwydd cymunedau ac argaeledd gwasanaethau yn ogystal â chyfrannu at nod llesiant Cymunedau Cydlynus (para. 3.38).

- 2.7 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn ceisio pwysleisio'r cysylltiad rhwng nifer y cartrefi sydd i'w darparu a'r cyfleoedd gwaith disgwylidig, yn ogystal â lleoliad unrhyw ddatblygiad newydd mewn perthynas â seilwaith presennol neu arfaethedig. Ystyrir bod hyn yn bwysig er mwyn lleihau'r angen i deithio, lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat a chynyddu'r cyfleoedd ar gyfer beicio, cerdded a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Tybir bod cynlluniau datblygu yn '*...darparu'r prif fodd o integreiddio rhwng cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth*' (para 4.1.5).
- 2.8 Mae paragraff 3.40 yn datgan y "*dylai awdurdodau lleol ddynodi canolfannau gwasanaeth lleol, neu glystyrau o anheddleoedd llai lle gellir dangos cysylltiad swyddogaethol cynaliadwy, fel y lleoliadau sy'n cael eu ffafrio ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd, gan gynnwys darpariaeth tai a chyflogaeth. Dylai'r dull hwn gael ei ategu gan gynlluniau darparu gwasanaethau darparwyr gwasanaethau lleol.*"
- 2.9 Mae paragraff 3.51 yn cynghori y dylid annog dwyseddau uwch mewn canolfannau trefol ac wrth ymyl prif nodau neu gyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus, er mwyn cynhyrchu más critigol o bobl i gefnogi gwasanaethau fel trafnidiaeth gyhoeddus, siopau lleol ac ysgolion.
- 2.10 Ar yr un pryd, mae PCC yn cydnabod bod y cyfleoedd ar gyfer lleihau'r defnydd o gerbydau preifat a chynyddu cerdded, beicio a'r defnydd o dtrafnidiaeth gyhoeddus yn fwy cyfyngedig yn y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol.

O ganlyniad, mae'n cynghori y "dylai datblygiadau yng nghefn gwlad gael eu lleoli o fewn ac wrth ymyl yr anheddleoedd hynny lle gellir darparu ar eu cyfer orau o ran seilwaith, mynediad, cynefin a gwarchod y dirwedd. Gall mewnlenni neu estyniadau bach i anheddleoedd presennol fod yn dderbyniol, yn enwedig os ydynt yn diwallu angen lleol am dai fforddiadwy neu os gellir dangos y bydd y cynnig yn cynyddu gweithgarwch economaidd lleol. Fodd bynnag, rhaid i adeiladau newydd mewn cefn gwlad agored i ffwrdd oddi wrth anheddleoedd presennol neu ardaloedd a ddyrannwyd i'w datblygu mewn cynlluniau datblygu barhau i gael eu rheoli'n llym. Dylai pob datblygiad newydd fod o faint a dyluniad sy'n parchu cymeriad yr ardal gyfagos" (Para 3.1.2).

- 2.11 Mae paragraff 3.39 PCC yn datgan y dylai'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd mewn ardaloedd gwledig gael eu lleoli mewn anheddleoedd sydd â mynediad cymharol dda drwy ddulliau di-gar o'u cymharu â'r ardal wledig yn ei chyfanrwydd. Dylai datblygiad yn yr ardaloedd hyn groesawu canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy a, lle bo'n bosibl, cynnig cysylltiadau teithio llesol da i ganol anheddleoedd i leihau'r angen i deithio mewn car ar gyfer teithiau lleol.
- 2.12 Mae geiriad Polisi Cynllunio Cymru yn dangos y gwerth y dylid ei roi i gefn gwlad agored ac i'w ddiogelu. Mae ffiniau datblygu felly'n rhoi cyfle i bolisi gyfeirio datblygiad tuag at leoliadau mwy cynaliadwy, gan osgoi effeithiau ar gefn gwlad agored.

Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3 (Mawrth 2020)

- 2.13 Mae paragraff 5.1.5 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn cynghori y "dylai ACLlau ystyried y ffordd fwyaf ymarferol o gyflwyno canlyniadau'r asesiadau, megis system sgorio, neu ddadansoddiad RAG (Coch, Oren neu Wyrdd). Dylai'r asesiad hwn fod yn sail i'r hierarchaeth anheddleoedd, gan nodi pa anheddleoedd sydd fwyaf cynaliadwy a pha rai sydd â'r capasiti i sicrhau twf."
- 2.14 I grynhoi, felly, y negeseuon allweddol o ganllawiau cenedlaethol a dogfennau presennol yw:
- Dylid cyfeirio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau at anheddleoedd presennol er mwyn ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl gael mynediad at waith, addysg a gwasanaethau drwy gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.
 - Dylid canolbwyntio datblygiadau mewn ardaloedd trefol a chanolfannau gwasanaeth allweddol sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau a chyfleusterau eraill. Gellir darparu ar gyfer datblygu mewn pentrefi a chymunedau gwledig bach eraill lle bo angen er mwyn cyfrannu at eu nodau cynaliadwyedd a llesiant.

- Mewn ardaloedd gwledig, dylid canolbwyntio datblygiadau mewn anheddleoedd a all weithredu fel canolfannau ar gyfer ardaloedd cyfagos.

3.0 Methodoleg Asesu Hierarchaeth Anheddleoedd Mewn Awdurdodau Eraill

Methodoleg Bresennol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

- 3.1 Mae'r adran hon yn adolygu'r Hierarchaeth Aneddleoedd yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol Ynys Môn a Gwynedd at ddibenion cyd-destunol. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y ddau Gyngor ym mis Gorffennaf 2017. Cynhaliwyd yr asesiad sy'n sail i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ym mis Chwefror 2015 ac roedd y canlyniadau'n sail i'r hierarchaeth anheddleoedd a fabwysiadwyd gan y Cynllun.
- 3.2 Roedd y dull gweithredu a fabwysiadwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn yn asesiad manwl i nodi rôl bresennol canolfannau yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Nodwyd cyfleusterau a gwasanaethau gwahanol ym mhob anheddle a rhoddwyd sgôr ar gyfer y rhain. Yna, defnyddiwyd y sgôr a roddwyd i bob anheddle i gategoreiddio'r anheddleoedd hyn yn wahanol fathau o anheddle yn yr ardal. Rhoddwyd anheddleoedd unigol wedyn yn y categori perthnasol gyda disgrifiad o'r math o ddatblygiad a ragwelir o fewn categorïau o'r fath.
- 3.3 Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar i) maint anheddleoedd; ii) yr ystod o wasanaethau a chyfleusterau a oedd yn bresennol; a iii) darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus. Roedd sgoriau pob anheddle yn seiliedig ar y math o wasanaethau fel y'u diffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru gyda rhai gwasanaethau'n cael sgôr uwch yn dibynnu ar eu maint; sgôr uwch yn cael ei rhoi ar gyfer nifer o wasanaethau penodol mewn anheddle; ac ar gyfer rhai gwasanaethau, mae eu sgôr unigol yn cael ei luosi â nifer y gwasanaethau sydd ar gael mewn anheddle.
- 3.4 Arweiniodd hyn at hierarchaeth anheddleoedd 6 haen a ddangosir yn nhabl 1 a diagram 2 isod:
- Canolfan Isranbarthol (1 anheddle - ddim ar Ynys Môn)
 - Canolfannau Gwasanaethau Trefol (7 anheddle - 3 ar Ynys Môn)
 - Canolfannau Gwasanaethau Lleol (20 anheddle - 10 ar Ynys Môn)
 - Pentrefi Gwasanaethau (11 anheddle - 3 ar Ynys Môn)
 - Pentrefi Gwledig ac Arfordirol Lleol (76 anheddle)
 - Clystyrau (87 anheddle - 42 ar Ynys Môn).

3.5 Roedd y CDLI ar y Cyd yn diffinio ffiniau datblygu o amgylch y Ganolfan Isranbarthol, Canolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaethau Lleol, a Phentrefi Gwasanaethau/ Lleol/Arfordirol/Gwledig. Nid oes gan glystyrau ffiniau datblygu. Yma, mae angen i'r datblygiad gyd-fynd yn dda â'r ffurf adeiledig bresennol, a ddangosir ar y Mapiau Cynigion drwy liwio adeiladau sy'n ffurfio eu craidd. Lluniwyd ffiniau datblygu a Chlystyrau er mwyn:


- i) Atal datblygiad annerbyniol yng nghefn gwlad a rhoi sicrwydd ac eglurder ynghylch lle gellid cymhwyso'r polisïau eithrio (ar gyrion anheddleodd);
- ii) Osgoi cyfuno anheddleodd neu rannau o'r un anheddle, datblygiad hirgul newydd neu batrwm datblygu tameidiog;
- iii) Nodi ardaloedd lle gellid cymeradwyo cynigion datblygu; a
- iv) hyrwyddo defnydd effeithiol a phriodol o dir.

Tabl 1: Hierarchaeth Anheddleodd yn Ynys Môn a Gwynedd
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - anheddleodd Ynys Môn yn unig

Hierarchaeth Anheddleodd y CDLI a Fabwysiadwyd (2011 a 2026)
Canolfan Gwasanaethau Trefol
Amlwch, Caergybi, Llangefni
Canolfannau Gwasanaethau Lleol
Benllech, Bodedern, Cemaes, Gaerwen, Llanfairpwll, Porthaethwy, Pentraeth, Y Fali, Biwmares, Rhosneigr
Pentrefi Gwasanaethau
Gwalchmai, Niwbwrch, Llannerchymedd
Pentrefi Lleol
Bethel, Bodffordd, Bryngwran, Caergeiliog, Dwyrân, Llandegfan, Llanddaniel-fab, Llanfachraeth, Llanfaethlu, Llanfechell, Llanfihangel-yn-Nhywyn, Llangaffo, Llangristiolus, Llanrhuddlad, Pencaernisiog, Penysarn, Rhosybol, Talwrn, Tregele
Pentref Arfordirol / Gwledig
Aberffraw, Carreglefn, Llanbedrgoch, Llanddona, Llanfaelog, Llangoed, Malltraeth, Pont Rhyd y Bont, Moelfre, Bae Trearddur

Clystyrau
Bodorgan, Bro Iarddur (Bae Trearddur), Bryn Du, Brynminceg (Hen Landegfan), Brynrefail, Brynteg, Bryn y Mor (Y Fali), Bwlch Gwyn, Capel Coch, Capel Mawr, Carmel, Cerrig-mân, Cichle, Glan-yr-afon (Llangoed), Glyn Garth, Gorsaf Gaerwen , Haulfre (Llangoed), Hebron, Hendre Hywel (Pentraeth), Hermon, Llan- faes, Llangadwaladr, Llansadwrn, Llanynghenedl, Llynfaes, Marian-glas, Nebo, Pen y Marian, Penlon, Penmon, Pentre Berw, Pentre Canol (Caergybi), Porth Llechog, Rhoscefnhir, Rhos-meirch, Rhostrehwfa, Rhyd-wyn, Star, Traeth Coch, Trefor, Tyn Lôn (Glan yr Afon), Tyn-y-gongl

Diagram 2: Dosbarthiad Anheddleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd:



Dull Gweithredu mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol Cyfagos

- 3.6 Mae'r adran hon yn adolygu'r dull a ddefnyddir mewn awdurdodau cyfagos er mwyn gallu cymharu, cyn amlinellu'r dull y cytunwyd arno ar gyfer cynnal asesiad o rôl bresennol anheddleoedd yn Ardal Cynllun Ynys Môn. Isod ceir crynodeb o'r dull a ddefnyddiwyd gan awdurdodau cyfagos i greu eu strategaeth anheddleoedd eu hunain:

Tabl 2: Methodoleg Hierarchaeth Anheddleoedd mewn Awdurdodau Cyfagos.

Awdurdod Cynllunio Lleol	Y Dull a Ddefnyddiwyd
Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2018-2033	Mae proses haenog yn cael ei mabwysiadu i grwpio anheddleoedd sydd â nodweddion tebyg o ran maint y boblogaeth,

	cyfleusterau, pwysau twf a'r gwasanaethau sydd ar gael. Mae'r Cynllun yn dilyn dull gweithredu chwe haen fel a ganlyn: - Ardaloedd Trefol - Canolfannau Gwasanaethau Allweddol - Prif Bentreffi Haen Un - Prif Bentreffi Haen Dau - Pentrefi Bach - Pentrefannau
Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031	Edrychwyd ar dair elfen: • Gwasanaethau a chyfleusterau • Darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus • Amcangyfrif o boblogaeth yr anheddleodd Arweiniodd hyn at hierarchaeth anheddleodd pedair haen fel a ganlyn: • Canolfannau Gwasanaethau Lleol (2 anheddle) • Anheddleodd Gwasanaethau (5 anheddle) • Anheddleodd Eilaidd (39 anheddle) • Anheddleodd Llai (29 anheddle)
Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych 2018-2033	Dosbarthwyd anheddleodd gan ystyried y ffactorau canlynol: • Maint yr anheddle • Gwasanaethau sydd ar gael • Darpariaeth trafndiaeth Arweiniodd hyn at hierarchaeth anheddleodd pum haen fel a ganlyn: • Prif Ganolfan (6 anheddle)

	• Canolfan leol (5 anheddle) • Pentref (21 anheddle) • Pentref heb wasanaethau (7 anheddle) • Cefn gwlad agored (pob anheddle arall)
Powys	Dosbarthiad anheddleoedd yn seiliedig ar 4 egwyddor: • Darpariaeth a hygyrchedd trafnidiaeth • Cyfleusterau a gwasanaethau lleol sydd ar gael • Lefel cyfleoedd cyflogaeth • Darpariaeth band eang mewn anheddleoedd. Arweiniodd hyn at hierarchaeth anheddleoedd chwe haen.

3.7 Er bod amrywiadau yn y fethodoleg a ddefnyddir gan wahanol awdurdodau, mae rhai ffactorau sy'n rhan o'r asesiad wedi'u defnyddio gan bob awdurdod, sef:

- maint anheddleoedd;
- ystod o wasanaethau a chyfleusterau; a
- darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus.

4.0 Methodoleg Arfarnu Anheddleoedd Ar Gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn

Methodoleg

- 4.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r asesiad manwl a gynhaliwyd i ganfod rôl bresennol anheddleoedd yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn. Mae cyfanswm o 87 anheddle wedi'u cynnwys yn y gwerthusiad. Mae'r anheddleoedd yn Ynys Môn sy'n cael eu hystyried yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn wedi cael eu hailasesu er mwyn sefydlu hierarchaeth anheddleoedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.
- 4.2 Ar ôl ystyried y dull gweithredu a ddefnyddiwyd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd, y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill a chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol wedi'u diweddarau, penderfynwyd seilio'r asesiad o dan y categorïau eang canlynol:
- **Maint y Boblogaeth**
 - **Trafnidiaeth a Mynediad** - lefel y trafndiaeth gynaliadwy a hygyrchedd rhwydweithiau trafndiaeth mewn anheddleoedd a'u cyffiniau.
 - **Cyfleoedd Cyflogaeth** - lefel y cyfleoedd cyflogaeth mewn anheddleoedd a'u cyffiniau.
 - **Gwasanaethau a Chyfleusterau** - argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol mewn anheddleoedd a'u cyffiniau.
- 4.3 Er mwyn sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i wahanol rolau anheddleoedd, penderfynwyd y dylai ystod eang o wasanaethau fod yn rhan o'r asesiad. Roedd y rhain mewn chwe chategori eang, sef Addysg, Iechyd, Hamdden, Adwerthu, Trafnidiaeth a'r Economi ac maent yn cynnwys y gwasanaethau sy'n rhan o fynediad at wasanaethau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019).
- 4.4 Dylai nodi gwasanaethau allweddol a rhoi mwy o bwys ar y rhain ddarparu eglurder wrth gategoreiddio anheddleoedd, yn enwedig ar gyfer anheddleoedd llai sydd â llai o gyfleusterau na'r canolfannau mwy. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019 yn casglu data ar sail mynediad at wasanaethau. Mae'r maes mynediad at wasanaethau yn cynnwys naw dangosydd amser teithio i wahanol wasanaethau a chyfleusterau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i siopau bwyd, meddygfeydd, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfeydd post, llyfrgelloedd cyhoeddus, fferyllfeydd, gorsafoedd petrol, a chyfleusterau chwaraeon.
- 4.5 Cafodd dangosydd gwasanaethau digidol ei ychwanegu o'r newydd ym MALIC 2019, sy'n mesur mynediad at fand eang cyflym iawn. Mae cysylltedd digidol yn dod yn

fwyfwy pwysig i'w ystyried yng nghyd-destun cysylltedd anheddleoeedd ehangach yn ogystal â phwysigrwydd cynyddol pobl yn gweithio gartref. Ym MALIC 2019, mesurwyd mynediad digidol drwy fynediad at fand eang cyflym iawn (cyflymderau o 30Mbs o leiaf), a'r dangosydd oedd cyfran yr eiddo preswyl mewn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is nad oedd yn gallu cyflawni'r cyflymderau hyn. Ystyrir mai'r cyflymder hwn yw'r lleiafswm sydd ei angen i allu cyflawni tasgau ar-lein sy'n hanfodol i fywyd o ddydd i ddydd.

- 4.6 Er mwyn sicrhau cysondeb, awgrymir bod y gwasanaethau a'r cyfleusterau a nodir yn y fethodoleg hierarchaeth anheddleoeedd fwy neu lai yr un fath â'r naw dangosydd a ddefnyddir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.
- 4.7 Felly, roedd y dangosyddion terfynol a ddefnyddiwyd at ddibenion yr asesiad fel a ganlyn:

Meini Prawf Asesu	Cyfleuster Gwasanaeth a Nodwyd
Maint y Boblogaeth	Nifer y trigolion
Trafnidiaeth a Mynediad	- Nod Trafnidiaeth - Gwasanaeth Bysiau - Gwasanaeth Trenau - Rhwydwaith Priffyrdd
Cyfleoeedd Cyflogaeth	- Safle Cyflogaeth - Siopau a Busnesau Bach
Gwasanaethau a Chyfleusterau <i>(Gwasanaethau a nodir ym MALIC 2019 mewn print trwm)</i>	- Ysgolion Cynradd - Ysgolion Uwchradd - Meddygfa - Deintydd - Llyfrgell - Cyfleuster Chwaraeon/Canolfan Hamdden - Swyddfa'r Post - Fferyllfa - Darpariaeth Band Eang - Darpariaeth Ffôn Symudol - Siop Fwyd Fawr - Siop Fwyd Cyfleustra

	• Ysbyty • Canolfan Gymunedol/Neuadd Pentref • Tafarn • Caffi/Bwyty/Tecawê • Banc/Cymdeithas Adeiladu • Gorsaf Petrol • Coleg • Peiriant Arian • Addoldy • Optegydd • Sinema/Theatr • Siop Adwerthu Arall • Meithrinfa/Grŵp chwarae • Gorsaf yr Heddlu • Gorsaf Dân
--	--

4.8 Cynhaliwyd asesiad bwrdd gwaith o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol ar gyfer pob anheddle ddechrau 2025. Defnyddiwyd yr astudiaeth bwrdd gwaith, gan ddefnyddio'r data sydd ar gael drwy gyfrwng gwybodaeth leol, gwybodaeth ar y rhyngwrwyd a system fapio'r Cyngor, i sefydlu gwaelodlin o gyfleusterau a gwasanaethau y gwyddys eu bod yn bresennol yn yr anheddleoedd, megis lleoliad neuaddau pentref, meddygfeydd, swyddfeydd post, arosfannau bysiau a chyfleoedd cyflogaeth.

4.9 Yna, cafodd pob anheddle ei asesu yn erbyn system sgorio a'i restru yn ôl ei sgôr gyffredinol. Mae'r sgorio'n darparu asesiad cynaliadwyedd meintiol cychwynnol sydd wedi'i gyfyngu i'r ffactorau mesuradwy a nodwyd. Mae'r meini prawf hyn wedi sgorio'r anheddleoedd ac wedi siapio'r hierarchaeth fel bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at anheddleoedd cynaliadwy.

System Sgorio

4.10 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (2020) yn awgrymu naill ai defnyddio system sgorio neu ddadansoddiad RAG (dadansoddiad Coch, Oren, Gwyrdd) i gyflwyno canlyniadau'r asesiad. At ddibenion cysondeb, a gan fod y fethodoleg wreiddiol a ddefnyddiwyd ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn dal i gael ei hystyried yn gadarn, mae'r un fethodoleg sgorio a ddefnyddiwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi cael ei mabwysiadu ar gyfer pob un o'r categorïau eang a amlinellir ym mharagraff 4.2. Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r ffynhonnell a'r dull a ddefnyddiwyd i gasglu data sy'n ymwneud â phob categori asesu.

- 4.11 Ystyriwyd y byddai rhoi'r un sgôr ar gyfer pob gwasanaeth yn rhy syml ac y gallai arwain at broblemau o ran nodi amrywiadau rhwng anheddleoedd canolig a llai o ran eu rôl yn yr ardal.
- 4.12 Rhoddir sgôr ar raddfa i rai gwasanaethau ar sail maint y gwasanaeth. Mae'r dull hwn yn caniatáu rhoi sgôr uwch i gyfleusterau mwy mewn rhai canolfannau. Oherwydd yr anhawster wrth gasglu gwybodaeth ac addasrwydd categorieiddio rhai gwasanaethau, ni fydd hyn yn addas ar gyfer yr holl gyfleusterau a ystyrir yn yr asesiad hwn. Bydd y gwasanaethau canlynol yn cael sgôr yn seiliedig ar eu maint:
- maint y boblogaeth;
 - siop fwyd fawr;
 - gwasanaeth bysiau;
 - gwasanaeth trenau; a
 - chyflogaeth.
- 4.13 Ystyriwyd y dylid rhoi sgôr uwch ar gyfer nifer yr un gwasanaeth o fewn anheddle. Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau bod y sgôr yn amrywio rhwng anheddleoedd sydd â nifer gwahanol o gyfleusterau. Dylai hyn sicrhau mwy o amrywiaeth rhwng gwahanol fathau o anheddleoedd er mwyn ei gwneud yn haws eu categorieiddio. Bydd gan y gwasanaethau canlynol sgôr amrywiad yn seiliedig ar nifer y rhain mewn anheddle:
- meithrinfa/grŵp chwarae;
 - coleg;
 - ysbyty;
 - fferyllfa;
 - optegydd;
 - canolfan gymunedol/neuadd pentref;
 - sinema/theatr;
 - addoldy;
 - siopau bwyd mawr;
 - tafarn;
 - siopau adwerthu eraill;
 - gorsaf petrol;
 - banc / cymdeithas adeiladu; a
 - pheiriant arian.
- 4.14 Ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwasanaethau allweddol a nodir ym mharagraff 4.4 uchod, dylid lluosu eu sgôr â nifer y gwasanaethau mewn anheddle e.e. os bydd ysgolion cynradd yn sgorio 4 pwynt yr un, yna rhoddir cyfanswm sgôr o 12 pwynt os oes 3

ysgol gynradd mewn anheddle. Bydd sgôr y gwasanaethau canlynol yn cael ei luosi ar sail nifer y gwasanaethau mewn anheddle:

- ysgol gynradd;
- ysgol uwchradd;
- meddygfa;
- deintydd;
- canolfan hamdden;
- llyfrgell;
- swyddfa'r post;

4.15 Mae'r tabl isod yn nodi'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd wedi'u cynnwys yn y fethodoleg hon a sail eu sgôr.

Tabl 3: Methodoleg Sgorio a Gymhwyswyd i Nodi Rôl Canolfannau yn Ardal y CDLI

Gwasanaeth a Sgoriwyd	Sail y Sgôr		
	Gwasanaeth Allweddol (fel y nodir ym MALIC)	Sgôr yn seiliedig ar faint y gwasanaeth	Nifer yr unedau sy'n cael sgôr uwch
Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd			
Nod Trafnidiaeth	X	X	X
Gwasanaeth Bysiau	X	✓	X
Gwasanaeth Trenau	X	✓	X
Rhwydwaith Priffyrdd	X		
Argaeledd Gwasanaethau a Chyfleusterau Lleol			
Ysgolion Cynradd	✓	X	X
Ysgolion Uwchradd	✓	X	X
Meddygfa	✓	X	X
Deintydd	✓	X	X
Llyfrgell	✓	X	X
Canolfan Hamdden	✓	X	X
Swyddfa'r Post	✓	X	X
Fferyllfa	✓	X	X
Darpariaeth Band Eang	✓	X	X
Siop Fwyd Fawr	X	✓	✓
Ysbyty	X	X	✓
